# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 14.03.18 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Geraint Edwards (Cadeirydd), Huw Davies, Ian Williams, Keith Carroll, Geraint Micah, David Griffiths, Malcolm Hills, Louise Hughes (Cynghorydd Sirol), Glenda Edwards (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **Ymddiheuriadau:** Kevin Goodchild, John Griffiths, Dylan Thomas.

3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y **14.02.18.**
   Cytunodd yr aelodau fod angen gwell eglurhad i'w anfon i Mr Meirion Black yn egluro yn union beth oeddent yn ei feddwl hefo "50/50"......
   - Os daw'r wal derfyn i lawr ar ochr y Cae Chwarae, yna'r Cyngor Cymuned fydd yn gyfrifol am ei chodi.
   - Os daw'r wal derfyn i lawr ar ochr Hendre, yna Hendre fydd yn gyfrifol am ei chodi.
   - Os bydd bwlch yn y wal - ie. twll drwy'r wal yn gyfan gwbl, yna bydd y Cyngor Cymuned a Hendre i rannu'r gost.
   - Dylai pris gael ei gytuno gyda'r Cyngor Cymuned a Hendre cyn i'r gwaith gael ei wneud.

   **Cynnig –** Keith Carroll **Eilio –** Huw Davies **Arwyddwyd –** Geraint Edwards.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (14.02.18):**
   a) **Llywodraethwyr Cymunedol Ychwanegol - Ysgol Craig y Deryn -** ateb wedi ei dderbyn gan Owen Owens, Uwch Reolwr Adnoddau, yn cadarnhau fod eu penderfyniad i ofyn i David Griffiths ail-lenwi ffurflen yn nodi ei brofiadau a sgiliau, yn llwyr oherwydd bod **dau** gynrychiolydd cymunedol ychwanegol yn lle **un** wedi'u cynnig i fod ar y Corff Llywodraethu. Cadarnhaodd hefyd fod ganddynt gynrychiolaeth dda o bob ardal ar y Corff Llywodraethu - sef Llanegryn, Bryncrug, Abergynolwyn a Llwyngwril.
   Nododd fod Clerc y Llywodraethwyr i adael i'r Cyngor Cymuned wybod beth fydd eu penderfyniad.

   b) **Torri gwair y Cae Chwarae – 2018/19** - pris wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd = **£750.00 + VAT**
   **Penderfyniad** ➞ pawb yn gytûn i dderbyn y pris yma. Cysylltu â Clive Jones i ofyn iddo drefnu'r gwaith.

   c) **Cynnal a Chadw'r Llwybrau, Cof Golofn a Mynwent y Crynwyr – 2018/19**
   pris a chopi o'i yswiriant wedi ei dderbyn gan Geraint Micah i wneud y gwaith am y flwyddyn nesaf.
   Dim ateb wedi ei dderbyn gan Daniel Jones, Coed y Môr, Llwyngwril.
   **Penderfyniad** ➞ derbyn pris Geraint Micah a chynnig y gwaith iddo.

   ❖ ***Geraint Micah wedi datgelu buddiant personol, ar lafar ac yn ysgrifenedig drwy lenwi ag arwyddo'r ffurflen, ac wedi gadael y cyfarfod gan ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu, tra'r oedd yr aelodau yn trafod y pris.***

5. **Gohebiaeth:**
   a) **Toiledau Cyhoeddus Llwyngwril –** cytundeb rhwng Gyngor Gwynedd a Chyngor Cymuned Llangelynnin wedi ei dderbyn a'i arwyddo. Amserlen agor y toiledau cyhoeddus yn Llwyngwril = 01.04.18 tan 31.10.18.
   Cyfraniad Blynyddol y Cyngor Cymuned = £2,000.00.
   b) Mynwentydd plwyf Llangelynnin – llythyr wedi ei dderbyn yn diolch am y rhodd = £500.00
   c) Ambiwlans Awyr Cymru – llythyr wedi ei dderbyn yn diolch am y rhodd = £250.00
   d) Calonnau Cymru – hysbyseb wedi ei dderbyn yn cynnig hyfforddiant CPR i aelodau'r gymuned
   **Penderfyniad** ➞ derbyn y cynnig yma a gofyn iddynt gysylltu i drefnu dyddiad.
   e) RABI - cais am gyfraniad ariannol ➞penderfynu peidio cefnogi'r cais yma.

**f)** Archwiliad Mewnol y Cyngor Cymuned – Gwasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd yn fodlon cynnal archwiliad ar gyfrifon a threfniadau lywodraethu Cyngor Cymuned Llangelynnin
**Penderfyniad** ➞ penodi Uned Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd fel Archwilydd Mewnol y Cyngor Cymuned am y flwyddyn yn diweddu 31.03.18.

**g)** Gwerthiant Tir ger Maes Parcio Tyn y Buarth - llythyr wedi ei dderbyn gan aelod o'r gymuned yn gofyn am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r tir yma.
**Penderfyniad** ➞ yr holl wybodaeth ddim ar gael i allu trafod yn iawn, felly cyfarfod arall wedi ei drefnu i drafod ymhellach ar y 21.03.18.

6. **Materion Cynllunio**:

- **NP5/69/390C - Fferm Llabwst Farm Rhoslefain -** cais i ddiwygio Amod Rhif 2 o Ganiatâd Cynllunio NP5/69/390B dyddiedig 11.01.18 i ehangu'r ystafell eistedd wrth ddefnyddio'r penty presennol ac ail leoli'r patio
➞ dim sylwadau gan y Cyngor Cymuned i'w cyflwyno i'r Parc Cenedlaethol Eryri.

7. **Adroddiad Ariannol**: Adolygiad ariannol wedi ei wneud.
Derbyniwyd Adroddiad Mis Chwefror 2018 yn gywir.
**Cynnig –** Ian Williams **Eilio –** Huw Davies **Arwyddwyd –** Geraint Edwards.

**a)** Llythyr i gael ei arwyddo gan y Clerc, Huw Davies a Keith Carroll (sydd a'i henwau ar y mandate banc) i gyfarwyddo banc HSBC i gau'r cyfrif "Business Money Manager" a throsglwyddo'r arian i mewn i "Community Account" y Cyngor Cymuned, fel y penderfynwyd yng nghyfarfod 13.12.17.
**b)** Dyletswyddau cofrestru awtomatig Pensiynau - er gwybodaeth - nodwyd fod y Clerc ddim yn cwrdd y meini prawf i fod yn aelod o'r cynllun yn awtomatig, felly cadarnhaodd ei bod wedi cyflwyno datganiad cydymffurfiaeth i'r Rheoleiddio Pensiynau ar ran y Cyngor Cymuned.
**c)** Polisi Yswiriant y Cyngor Cymuned - adolygiad wedi ei wneud o'r eitemau ar gyfer yswiriant 2018/19.
Dyddiad adnewyddu'r polisi = 01/06/18. Dim newidiadau.
Broceriaid Yswiriant y Cyngor Cymuned wedi newid o AON i **BHIB.**
**d)** Asesiad Risg Blynyddol ar gyfer 2018-19 wedi ei gyflwyno i'r cyngor.
**e)** Siec 100726 i Geraint Jones, Welding and Fabrication am bostiau gôl newydd (x 2) i'r cae chwarae = **£220.00**
(i'w dalu gyda'r arian sydd wedi eu glustnodi i ddefnydd y cae chwarae) .
**f)** Derbynneb gan Gyngor Gwynedd - torri gwair yn y cae chwarae (am y flwyddyn 2017-18) = **£576.00.**

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:** Dim

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol**:

- **Arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd –** doedd gan Louise Hughes ddim gwrthwynebiad i fwriad y Comisiwn Ffiniau i gyfuno cymunedau Arthog a Llangelynnin yn unig.

- Cynigodd Louise gysylltu â'r canlynol i geisio cael atebion i'r Cyngor Cymuned ….. (gyda chopi i glerc y Cyngor)
**a)** Cynhadledd Rheilffordd Arfordir y Cambrian ➞ goleuadau yn yr orsaf
➞ rhwystrau diogelwch ar yr Allt – rhwng Friog a Llwyngwril.
**b)** Cartrefi Cymunedol Gwynedd ➞ trefnu ymweliad safle i archwilio'r difrod ar ôl y gwynt.
**c)** Warden Cwn Cyngor Gwynedd ➞ problem hefo baw cwn yn Llwyngwril ➞ cysylltu â'r warden
➞ polyn sydd yn dal y bin baw cwn ar lwybr y Perthi angen ei drwsio/newid.
**d)** Adrian Williams, Cyngor Gwynedd ➞ cyflwr gwael y ffyrdd yn Llwyngwril – angen eu hysgubo
➞ffordd Tydfarch/Cefnmeusydd - difrod i'r ffordd hanner ffordd i fyny
➞ gordyfiant ar yr Allt – arwydd ar ochr y ffordd wedi ei orchuddio

➞ ochrau'r ffordd ger Encil - angen glanhau'r sianeli concrete sydd ar ochr y ffordd o fynediad Prysgau Uchaf i lawr i Encil.

**10. Unrhyw Fater Arall:**

- Cae Chwarae – Kevin Goodchild wedi cynnig mynd i nôl y postiai gôl o Fryncir a Geraint Edwards yn cynnig trefnu i roi y postiai i fyny yn y cae chwarae gyda help Huw Davies, Keith Carroll, David Griffiths a Malcolm Hills.

**Materion Cymunedol**

**a)** Difrod i'r fflatiau yng Ngodre'r Gaer ar ôl y gwynt yn ddiweddar - Louise Hughes wedi cynnig trefnu cysylltu â Chartrefi Cymunedol Gwynedd i wneud ymweliad safle gyda nhw.
**b)** Ty Golau, FFordd y Coleg – wal wedi dod i lawr ➞ hysbysu Cyngor Gwynedd.
**c)** Biniau Halen – Uc 525 Prysgau Ganol / Uc 527 Parth y Gwyddwch angen eu llenwi ➞ hysbysu Cyngor Gwynedd.
**d)** Bin ysbwriel Llangelynnin – wedi diflannu gyda'r gwynt ➞ hysbysu Cyngor Gwynedd**.**

---

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 21.03.18 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Geraint Edwards (Cadeirydd), Huw Davies, Keith Carroll, Kevin Goodchild, John Griffiths, Glenda Edwards (Clerc).

**1. Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**2. Ymddiheuriadau:** Malcolm Hills, David Griffiths, Dylan Thomas.

**Gwerthiant Tir ger Tyn y Buarth, Llwyngwril**

Llythyr wedi ei dderbyn gan aelod o'r gymuned yn gofyn am fwy o wybodaeth gan y Cyngor Cymuned ynglŷn â'r gwerthiant tir ger Tyn y Buarth, gan Gyngor Gwynedd.

Wedi trafod y mater yn fanwl, daeth yr aelodau i'r penderfyniad nad oedd ganddynt yr awdurdodaeth i wneud unrhyw ymateb i'r sylwadau yn y llythyr, a byddai rhaid i'r unigolyn drafod eu hymholiadau gyda Mr Aled Gwyn, Cyngor Gwynedd, yn uniongyrchol.

Nodwyd y dylai gael rhywfaint o dryloywder gan Cyngor Gwyned a fod unrhyw werthiant or fath yn mynd ar y farchnad agored yn y dyfodol.

**Penderfyniad** ➞ cysylltu ag Aled Gwyn, Cyngor Gwynedd, i'w wneud yn ymwybodol o'r materion a godwyd, a chadarnhau nad yw'r Cyngor Cymuned a diddordeb i feddiannu'r tir, unai ar brydles neu trwy rydd-ddaliad, gan Gyngor Gwynedd.

## Dyddiad y Cyfarfod Nesaf - AGM :- Nos Fercher – 09.05.18 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan

**Arwyddwyd**

**Cadeirydd ……………………………………………………………………………………………… Dyddiad ……………………………**